

tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# Pecyn Recriwtio

## Cydlynydd Dros Dro Polisi a/neu Ddigwyddiadau

**Lleoliad:** Gweithio o bell a theithio achlysurol ar hyd a lled Cymru ac i gyfarfodydd staff yn Swyddfa Caerdydd.

**Closing date:** 12pm on 30 Ebrill 2025
**Cyfweliad** 7 Mai 2025

# Croeso

Ymunwch â'n Tîm fel Cydlynydd Dros Dro Polisi a/neu Ddigwyddiadau.

Diolch am eich diddordeb i fod yn Gydlynydd Dros Dro Polisi a/neu Ddigwyddiadau—cyfle cyffrous i'n helpu ni i gael effaith wirioneddol yn Tai Pawb!

Tai Pawb yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw yng Nghymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Rydym yn dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gartref da ac rydym yn gweithio gyda'n haelodau a'r sector tai ehangach i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud. Rydym hefyd yn dylanwadu ar lunwyr polisïau i sbarduno newid ystyrlon.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â ni gan ein bod ar drothwy blwyddyn olaf ein strategaeth bum mlynedd ac ar fin dechrau ar y broses o lunio strategaeth newydd ar y cyd â'n staff a'n rhanddeiliaid. Rydym wrthi'n gwneud rhai newidiadau i'n tîm Polisi a Materion Cyhoeddus, ac rydym yn falch o gynnig y cyfle i gael secondiad chwe mis neu gontract cyfnod penodol (tan fis Tachwedd 2025), i'n helpu ni gyda'n capasiti. Dros y cyfnod hwn, rydym yn rhagweld y bydd y dyletswyddau sy'n ofynnol yn cynnwys gwaith polisi sy'n ymwneud â phobl anabl, digartrefedd, datblygu maniffestos a digwyddiadau/briffiau ar arferion da. Rydym yn hyblyg ar sail sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd llwyddiannus, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y raddfa gyflog eang sydd ar gael ar gyfer y swydd hon. P'un a ydych chi'n rhywun sydd â phrofiad o lunio polisïau, cydlynu digwyddiadau ar-lein neu'n awyddus i ennill arbenigedd yn y naill faes neu'r llall, gallai'r cyfle hyblyg hwn fod yn addas i chi.

Mae ein cylch gwaith yn eithaf arbenigol ac felly nid ydym ni'n disgwyl i ymgeiswyr fod yn arbenigwyr ar wrth-hiliaeth a'r sector tai o'r dechrau. Fodd bynnag, mae angerdd gwirioneddol dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol. Diddordeb ym maes polisi a'r awydd i weithio fel aelod o dîm, ynghyd â'r gwerthoedd cywir ac ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sydd bwysicaf.

Yma yn Tai Pawb, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac mae angen pobl wych arnom i'n helpu i'w cyflawni. Fel sefydliad bach, deinamig, mae gweithio gyda ni yn golygu:

- Ennill profiad amrywiol ac ehangu eich rhwydweithiau
- Gweld effaith uniongyrchol eich gwaith
- Dylanwadu ar ein cyfeiriad drwy wneud penderfyniadau'n gyflym
- Elwa o'r Wythnos 4 Diwrnod arloesol rydym yn ei gynnig — 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (bydd penderfyniad ar fabwysiadu'r model hwn yn barhaol yn cael ei wneud gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Ebrill).
-

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau, datblygu eich potensial, a bod yn aelod o dîm sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.



Mae'r swydd hon yn un hyblyg, felly dim ond fel canllaw y bydd y disgrifiad swydd a manyleb y person yn cael eu defnyddio – ni fydd disgwyl i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf. I'r perwyl hwnnw, os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd hon, cysylltwch â ni am drafodaeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich cais!

**David Rowlands**
**Pennaeth Dros Dro Polisi a Materion Cyhoeddus**

tai pawb


# Amdanom ni




## Pwy ydyn ni?

Tai Pawb yw'r prif sefydliad cenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Mae gennyn ni weledigaeth o Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydym ni'n cefnogi ac yn gweithio gyda'n haelodau i'w helpu i roi syniadau ar waith, rydym ni'n dylanwadu ar lunwyr polisïau i sicrhau bob polisïau tai yn deg, ac rydym ni'n arweinwyr syniadau ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer y sector tai a'r tu hwnt.

## Ein Tîm



# Pam gweithio yn Tai Pawb?

## Budd-daliadau

### CYFLOG

Rydym ni'n cynnig cyflog cystadleuol. Mae hyn yn cael ei feincnodi'n rheolaidd yn erbyn safonau'r diwydiant.

### PENSIWN

Cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Bydd Tai Pawb yn cyfrannu 5% at eich pensiwn.

### WYTHNOS WAITH 4 DIWRNOD

Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, bydd Tai Pawb yn treialu wythnos waith 4 diwrnod. Mae'r Wythnos Waith 4 Diwrnod yn seiliedig ar egwyddor o gyflawni 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (nid yw'n golygu oriau cywasgedig na thâl pro rata). read more here

### GWEITHIO HYBLYG

Gartref fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n bennaf. Mae gennyn ni swyddfa yng Nghaerdydd ac mae modd ei defnyddio drwy gydol yr wythnos yn unol ag anghenion aelodau staff. Rydyn ni'n disgwyl y byddwch chi'n cwrdd â'ch rheolwr llinell yn rheolaidd i drafod gwaith prosiect.

### GWYLIAU

Mae gan staff hawl i gael 23 diwrnod o wyliau blynyddol ac 8 Gŵyl Banc. Rydym ni hefyd yn cynnig tâl da ar gyfer absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir.

### LLUNIO'R SEFYDLIAD A'N GWAITH

Bydd ymuno â Tai Pawb yn rhoi cyfle i chi helpu i lunio ein gwaith yn ogystal â'n hymatebion i gyfleoedd a heriau yn y sector tai a chydraddoldeb. Rydym ni'n sefydliad gwirioneddol golegol a chydweithredol sy'n gwerthfawrogi mewnbwn a phrofiad staff.

# Disgrifiad Swydd

**Swydd:** Cydlynydd Dros Dro Polisi a/neu Ddigwyddiadau
**Yn atebol i'r:** Pennaeth Dros Dro Polisi a Materion Cyhoeddus
**Cyflog:** £28,698 - £37,874 (byddwn yn penodi ar sail yr amrywiaeth o ddyletswyddau y gall yr ymgeisydd eu cyflawni)
**Oriau:** Hyblyg – Mae'r cyfle hwn ar gael am 35 awr yr wythnos (28 awr yr wythnos neu ran-amser (o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos) mewn gwirionedd yn seiliedig ar yr ymgeisydd llwyddiannus. Rydym wrthi'n treialu wythnos waith pedwar diwrnod, lle byddwch chi'n derbyn 100% o'r cyflog, 80% o'r oriau a 100% o'r canlyniadau. Nid ydym yn gweithio ar ddydd Gwener. (bydd penderfyniad ar fabwysiadu'r model hwn yn barhaol yn cael ei wneud gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Ebrill).
**Contract:** Tymor penodol/Secondiad (tan fis Tachwedd 2025 gyda phosibilrwydd o estyniad).
**Lleoliad:** Gweithio o bell a theithio achlysurol ar hyd a lled Cymru ac i gyfarfodydd staff yn swyddfa Caerdydd. Addasiadau rhesymol ar gyfer yr unigolyn llwyddiannus, os oes angen.
**Teithio:** Teithio'n achlysurol ar hyd a lled Cymru ac i gyfarfodydd a digwyddiadau aelodaeth a phartneriaethau
**Cysylltiadau allweddol:** Cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector sy'n rhoi cymorth tai, cydweithwyr mewnol

## Pwrpas y swydd:

Bydd deiliad y swydd yn ganolog i swyddogaethau polisi Tai Pawb. Mae'n gyfle hyblyg i ymgymryd â gwaith polisi a/neu ddigwyddiadau, gan ganolbwyntio ar feysydd fel digartrefedd ac anabledd. Mae angen sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da, gan gynnwys y gallu i wneud gwybodaeth yn effeithiol ac yn ddealladwy. Mae hon yn swydd ar gyfer gweithiwr annibynnol sy'n hoff o gyfrannu at waith tîm. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Dros Dro ym maes Polisi a Materion Cyhoeddus, a bydd yn cefnogi ein swyddogaeth polisi, gan gynnwys ehangu arferion da i aelodau a sicrhau bod ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu deall ar draws y sector tai.

# Disgrifiad Swydd

## Y Prif Ddyletswyddau

Fel y nodwyd uchod, mae hon yn swydd hyblyg sy'n seiliedig ar yr amrywiaeth o sgiliau y gall yr ymgeisydd eu cyflawni.  Rydym yn rhagweld mai dyma fydd rhai o'r dyletswyddau:

- Cefnogi swyddogaeth polisi Tai Pawb mewn perthynas ag anabledd, hil, materion sy'n ymwneud â Phobl LHDT+ a meysydd ffocws strategol eraill fel y canlynol:

o   cyd-gynhyrchu a chyhoeddi papurau polisi, sesiynau briffio ar ddigwyddiadau, arferion da, ac arweiniad – gan ddylanwadu ar randdeiliaid i'w mabwysiadu
o   monitro'r ffordd y mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru yn cael ei roi ar waith
o   gweithio gyda'r Rheolwr Cyllid a Phartneriaethau i bennu hyd a lled ymgyrchoedd partneriaeth

- Ymchwilio, olrhain a chyfleu effaith ein gwaith polisi a dylanwadu yn rheolaidd drwy arolygon ac ymgysylltu ag aelodau/rhanddeiliaid
- Ymgysylltu a chynnal ymchwil gydag aelodau a phartneriaid i helpu i greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gwaith polisi a dylanwadu
- Gweithio'n strategol gydag aelodau eraill y tîm i chwilio am brofiadau bywyd a gweithredu arnynt, gan ddatblygu sylfaen dystiolaeth i ategu gweithgareddau Tai Pawb
- Gweithio'n agos gyda swyddogion polisi (Llywodraeth Cymru) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau
- Craffu ar effaith bosibl a gwirioneddol polisïau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a hawliau dynol – a dylanwadu ar newid cadarnhaol
- Gwneud unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd fel aelod o dîm bach sydd â chylch gwaith cenedlaethol.

# Manyleb y Person

## Essential

**Knowledge & Experience**

- Wedi cymhwyso i lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol
- Hanes llwyddiannus o ddatblygu cysylltiadau effeithiol a chredadwy gydag ystod eang o randdeiliaid
- Profiad o ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol

**Skills & competencies**

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac ar bapur ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion
- Trefnus iawn gyda sgiliau cynllunio prosiect ac ymchwil, a'r gallu i weithio'n annibynnol
- Sgiliau TG lefel uwch, gan gynnwys Excel, Word, PowerPoint neu feddalwedd gyfatebol
- Gallu cael lefel dda o ddealltwriaeth yn gyflym mewn gwahanol feysydd polisi
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol

## Desirable

- Sgiliau rheoli prosiectau
- Dealltwriaeth o faterion, polisïau ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Dealltwriaeth o rôl sefydliad aelodaeth cenedlaethol
- Gallu cyfathrebu'n Gymraeg

# Next Steps

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch eich ffurflen gais a'r ffurflen monitro cydraddoldeb at andrea@taipawb.org erbyn hanner dydd ar 30 Ebrill 2025.

Mae Tai Pawb wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol. Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir.

Er mwyn ein helpu i gael gwell cynrychiolaeth o ran y materion rydym yn gweithio arnynt ac i gael gwared ar rwystrau, bydd pob ymgeisydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol, yn ogystal â phob ymgeisydd anabl, yn sicr o gael cyfweliad.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, nodwch hyn yn yr adran a ddarperir ar y ffurflen gais. Byddwn yn cysylltu â chi i drafod hyn os cewch eich rhoi ar y rhestr fer. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 8 Mai.

Sylwch, oherwydd capasiti, ni allwn ddarparu adborth unigol ar geisiadau yn ystod camau cynharach recriwtio. Os na fyddwch chi wedi clywed gennym erbyn 5pm ar 2 Mai, nid ydych chi wedi cael eich rhoi ar y rhestr fer.

